


# Criced mewn Parau



## newid chwaraewyr



## Beth am chwarae?

- Trefnwch y plant fel bod deg plentyn ym mhob gardd (maes chwarae) a'u rhannu'n bum pâr (pum set o ddau chwaraewr)
- Bydd pob pâr yn cael cyfle i wneud y canlynol gan newid o un i'r llall: batio, maesu ar ochr y goes, maesu ar yr ochr draw, bowlio a chadw wiced, dyfarnu/sgorio a hyfforddi. Bydd angen i'r plant gytuno ar ffordd deg o newid rôl pob pâr
- Bydd pob pâr yn dechrau gydag ugain rhediad. Byddant yn colli tri rhediad bob tro y byddant allan
- Bydd y parau'n sgorio rhediadau trwy fatio a rhedeg rhwng y wicedi
- Bydd y plant yn chwarae yn eu safleoedd am ddwy belawd – caiff y bêl ei bowlio chwe gwaith ym mhob pelawd, ac yna caiff y parau eu newid
- Bydd y plant yn sgorio pwyntiau fesul pâr



# Criced mewn Parau

## Geiriau allweddol

Rheolaeth, cadw cydbwysedd, sgiliau cydsymud, ymwybyddiaeth ofodol, ystwythder

Gwneud penderfyniadau, amseru

Strategaethau, tactegau, cyfathrebu, gwaith fïm

Cywirdeb, dal, taflu, taro, gwagle, rhedeg, mynd ar ôl, casglu

## Adnoddau

Marcwyr dros dro, conau, amrywiaeth o beli (gan gynnwys peli â chlychau), batiau, ti taro ac ati

## Diogelwch a threfn

### Sicrhewch:

- fod yr arwyneb yn ddiogel ac yn rhydd o rwystrau
- bod digon o le gwag rhwng y 'gerddi'
- bod y plant yn cadw'r bêl yn eu 'gardd' eu hunain a bod y batwyr yn anelu i ffwrdd wrth 'erddi' eraill

### Cyfleoedd i:

- ddatblygu cywirdeb, rheolaeth, cydbwysedd a sgiliau cydsymud
- datblygu ymwybyddiaeth ofodol
- cydweithio ag eraill a pharchu confensiynau chwarae teg, cydraddoldeb ac ymddygiad priodol
- ymgymryd â rolau eraill a'u deall – rôl batiwr, maeswr, bowliwr, wicedwr, sgoriwr/dyfarwyr a hyfforddwr

## Cwestiynau

- Pa mor dda roeddech chi wedi gweithio fel pâr?
- Sut gwnaethoch chi helpu eich partner?
- Beth fyddwch chi'n ei wneud i wella eich gwaith fïm y tro nesaf?
- Pa weithgaredd roeddech chi fwyaf/leiaf llwyddiannus yn ei wneud?
- Pa sgiliau y byddwch chi'n eu hymarfer er mwyn bod yn fwy llwyddiannus yn y gweithgaredd hwn y tro nesaf?
- Sut dangosoch chi chwarae teg ac agwedd iach?

## Newidiadau i'r gweithgaredd

### Newidiwch y canlynol:

#### Lle

- y ffiniau
- y pellter rhwng y wicedi

#### Tasg

- y dull o fowlio'r bêl
- y dull o daro'r bêl, e.e. gan ddefnyddio ti batio
- y rheolau mewn perthynas â tharo'r bêl, e.e. os byddwch chi'n taro'r bêl rhaid i chi redeg
- y rheolau mewn perthynas â sgorio – cyflwyno modd o sgorio 4 neu 6 rhediad, neu gyflwyno parthau sgorio penodol ac ati

#### Offer

- yr offer a ddefnyddir – defnyddio gwahanol beli, batiau, racedi ac ati

#### Pobl

- nifer y plant sy'n chwarae, e.e. ychwanegu pâr arall o faeswyr

